cyngor ar bopeth citizens advice Conwy



ARC Enterprises





# Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Conwy

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau
# Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Conwy

**Mae Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Conwy wedi derbyn £890,000 gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) y DU.**

Gwahoddwyd ceisiadau gan sefydliadau a darparwyr hyfforddiant i gyflwyno sgiliau a hyfforddiant hanfodol er mwyn datblygu sgiliau preswylwyr Conwy a rhoi hwb i'w hyder gyda rhifedd.

Sicrhaodd un ar ddeg o brosiectau arian CFfG y DU, i gefnogi trigolion Conwy. Roedd y prosiectau'n cynnwys mynediad at leoliadau gwaith â thâl, datblygu sgiliau cyffredinol, hyfforddiant a chymwysterau i gefnogi gyrfaoedd yn y dyfodol. Cefnogodd nifer o'r prosiectau'r rhai anoddaf i'w cyrraedd, gyda'r nod o gynyddu hyder unigolion, gwella eu sgiliau a darparu cymorth cyn cyflogaeth.

Arweiniwyd y Gronfa Allweddol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ddarparu grantiau i alluogi dosbarthiad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer prosiectau llai a nodwyd ar lefel leol.

*"Mae'r Gronfa Allweddol Pobl a Sgiliau wedi ariannu prosiectau i gefnogi pobl i wella eu sgiliau a'u hyder. Dyma'r sgiliau allweddol sydd eu hangen arnynt yn eu bywydau o ddydd i ddydd ac i'w helpu i ddod o hyd i swydd.*

*Mae'r Gronfa Allweddol wedi caniatáu i ni fuddsoddi yn nyfodol unigolion, ac mae pobl sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol yn galluogi busnesau lleol a'r Sir i ffynnu."*

**Y Cynghorydd Nigel Smith**
**Aelod Cabinet Economi Gynaliadwy**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**



Nod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yw gwella balchder mewn lleoedd a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y DU, drwy fuddsoddi mewn cymunedau a lleoedd, cefnogi busnesau lleol, a phobl a sgiliau.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus

This document is also available in English.

# 1 Astudiaeth Achos: Sgiliau Gwyrdd

## Cymdeithas Coed Lleol

Datblygodd Cymdeithas Coed Lleol y prosiectau Sgiliau Gwyrdd fel eu bod yn canolbwyntio ar ddefnydd ac ymrwymiad cadarnhaol i fannau gwyrdd mewn coetiroedd yng Nghonwy trwy ddarparu hyfforddiant a chyrsiau sgiliau gwyrdd. Cymerodd tua 100 o bobl ran yn y prosiect, gan gynnwys preswylwyr Conwy a gweithwyr proffesiynol yn y Sir drwy sesiynau galw heibio, rhaglenni aml-sesiwn a rhaglenni ar-lein, er mwyn cynnwys preswylwyr yng Nghonwy nad oedd o bosibl modd iddynt fynychu wyneb yn wyneb.

Adborth gan gyfranogwr:

"Mae gwirfoddoli ar y cwrs lles chwe wythnos o hyd, yn ogystal ag ysgol goedwig Coed Lleol wir wedi rhoi hwb i'm hyder wrth gyflwyno sesiynau, ac rwy'n gobeithio defnyddio hynny i gynnal fy sesiynau fy hun yn y dyfodol agos.

Ar hyn o bryd, rwy'n hyfforddi i fod yn ymarferydd lles mewn natur a byddwn wrth fy modd yn cael cyfle i barhau i wirfoddoli gyda chymdeithas Coed Lleol.

Rydw i wedi teimlo fy mod i wedi cael fy annog, fy nghefnogi a'm croesawu gan yr holl aelodau staff a gwirfoddolwyr ac rwy'n hynod ddiolchgar o fod wedi cael profiad mor gadarnhaol yn gwirfoddoli. Rwy'n edrych ymlaen at gael llawer mwy o brofiadau."




Funded by UK Government

## Nature Health Walk Leader Training

A free two-day training course for anyone interested in walking and leading walks from beginner level upwards living in and around Conwy county.

Gain knowledge and practical skills in designing and leading walks to improve the mental and physical health of your family, friends or local community.

Led by professional heath walk leaders from Coed Lleol/Small Woods, specialists in outdoor and nature-based health.

Gain an Agored certified qualification.

**When and where**

Mon 18th & Tues 19th Nov 2024, 9.30am–4pm

Llanfairfechan Village Hall

*Can't make those dates? There's also free online training available to do at your own pace.*

**Please contact Tamsin for more information or to book your place**

tamsinfretwell@smallwoods.org.uk

This project is funded by the UK Government through the UK Shared Prosperity Fund.

**Connect with us**

CoedLleolConwy

CoedLleol SmallWoods

Conwy

## 2 **Astudiaeth Achos: Gwedd Newid**
Cyngor ar Bopeth Conwy

Cynhaliodd Cyngor ar Bopeth Conwy ddau brosiect o dan Gronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Conwy. Roedd y prosiectau hyn yn cynnig lleoliadau â thal ar gyfer 12 o gyfranogwyr, a oedd yn cynnwys cymorth a hyfforddiant i ddod yn Ymgynghorwyr Cyffredinol Cyngor ar Bopeth.

Gweithiodd y cyfranogwyr yn agos gydag Ymgynghorwyr Cyngor ar Bopeth Conwy i gael profiad yn y maes. Yn dilyn hynny, llwyddodd llawer o'r cyfranogwyr i gael swydd gyda Chyngor ar Bopeth ac maent yn parhau i ddatblygu eu sgiliau yn y gweithle.

Meddai Prif Weithredwr a Rheolwr Prosiect, prosiectau Gwedd Newid:

*"Mae'r dull newydd hwn o hyfforddi wedi profi'n hynod lwyddiannus. Mae'r cyfle i'r hyfforddeion dderbyn cyngor unigol, hyfforddiant datblygu gyrfa a hyfforddiant achrededig wrth dderbyn tâl wedi bod yn drawsnewidiol. Rydym wedi gwylio'r hyfforddeion yn datblygu o ran gwybodaeth, hyder a hunan-werth."*

Adborth gan gyfranogwr:

*"Cyn i mi ymuno â'r prosiect hwn, roeddwn wedi bod yn ddi-waith am fisoedd ac wedi bod yn cael trafferth dod o hyd i gyflogaeth. Hefyd nid oeddwn erioed wedi gweithio fel rhan o dîm o'r blaen ac nid oeddwn yn hyderus yn fy ngallu neu sut fyddwn yn perfformio.*

*Ond mae'r prosiect hwn wedi newid fy mywyd! Mae wedi rhoi'r hyder a'r sgiliau roeddwn eu hangen i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm ac mae'r bobl rwyf wedi gweithio gyda nhw wedi bod yn hyfryd! Ni fyddwn wedi gallu gofyn am well lle i weithio na gwell nod i fod yn rhan ohono."*

cyngor ar bopeth citizens advice Conwy



# Astudiaeth Achos: Conwy Gyfoethog

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Nod prosiect Conwy Gyfoethog gan Adran Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i breswylwyr Conwy sydd rhwng 16 a 35 oed ac â diddordeb mewn gweithio yn y diwydiannau datblygu chwaraeon a hamdden. Roedd y cyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn cynnwys cyrsiau arweinwyr beicio mynydd, cyrsiau sgiliau dŵr ac achubwyr bywyd mewn pwll a chyrsiau diogelu, er mwyn sicrhau bod gan gyfranogwyr y cymwysterau a'r gefnogaeth i ddatblygu gyrfaoedd o fewn y sector hamdden.

Adborth gan gyfranogwyr:

*"Fe wnes i wir fwynhau dysgu sut i ddod yn arweinydd ac rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu fy sgiliau ymhellach."*

*"Cyfleoedd hyfforddi gwych i bobl leol."*

*"Cwrs sydd wedi'i gyflwyno'n dda gyda digonedd o elfennau ymarferol i gynnal eich cymhelliant."*





# 4 Astudiaeth Achos: Cyllidebu Sgiliau Bywyd
ARC Enterprises Cyf.

Darparodd ARC Enterprises Cyf. gyrsiau rhifedd i oedolion a oedd yn benodol ar gyfer preswylwyr Conwy, er mwyn rhoi hwb i'w hyder wrth reoli arian yn effeithiol a datblygu sgiliau bywyd. Llwyddodd ARC i ddarparu cefnogaeth achlysurol, wyneb yn wyneb ac ar-lein i breswylwyr Conwy mewn lleoliadau yn Llandudno a Bae Colwyn, yn ogystal â gweithio ochr yn ochr â phrosiectau eraill gan Gronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Conwy i gyfeirio cyfranogwyr at wasanaethau a darpariaethau eraill o fewn y sir.

ARC Enterprises

Meddai Rheolwr Prosiect a Chyfarwyddwr ARC Enterprises Cyf.:

*"Fel sefydliad sydd â phrofiad o gyflawni prosiectau cymunedol yn ardal Conwy dros nifer o flynyddoedd, rydym wedi gweld dros ein hunain yr anawsterau ariannol y mae llawer o'n cleientiaid yn eu profi. Roedd diffyg sgiliau rhifedd/ariannol a gwybodaeth neu sgiliau cyllidebu i'w gweld yn gwaethygu bob amser fwy na heb, neu broblemau eraill a oedd ganddynt.*

*Mae'r cyllid y bu i ni ei dderbyn drwy'r Gronfa Pobl a Sgiliau wedi caniatáu i ni wneud newidiadau cadarnhaol a mynd i'r afael â llawer o'r materion hyn, gan ein galluogi i gynnig cefnogaeth a gwasanaeth mentora un i un ar gyfer ymhell dros 50 o bobl."*






I ddysgu mwy am Gronfa Ffyniant Gyffredin
y DU yng Nghonwy, ewch i:

**www.conwy.gov.uk/cronfa-ffyniant-gyffredin-y-du**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Funded by
UK Government